

# ARLOESWYR

William Burges - Pensaer

gan Joanna Davies



# Cynnwys

|                                           |    |
|-------------------------------------------|----|
| William Burges (1827-1881)                | 3  |
| Cellweiriwr y llys                        | 5  |
| Sylfeini cryf                             | 7  |
| Y Bïoðen Ganoloesol                       | 9  |
| Aðfywiað Gothig Oes Fictoria              | 11 |
| Cestyll yn yr awyr                        | 12 |
| Teyrnasoeðð y tylwyth teg a bröyðð aur    | 13 |
| Burges a Bute - y pâr perffaith           | 14 |
| Castell Coch - y castell tylwyth teg      | 19 |
| Gothig Ffrengig a Ffantasi Gymreig        | 21 |
| Aðeilað anghofieðig Burges yng Nghaerðyðð | 26 |
| Celf a Chreffft a harððwch pethau         | 28 |
| Y fasys Tiwlip enwog                      | 30 |
| Cartref seren roc                         | 31 |
| Yr Athrylith a Anghofiwýð                 | 33 |
| Cwlt Billy Burges                         | 33 |

“Prin y gwelwyð gofodau mewdol cystal â rhai Burges yng Nghaerðyðð... mae ei waith gorffenedig yn gofadeiladau rhagorol i arðdull gothig y beðwareðð ganrif ar bymtheg, a’r cyfresi o ystafelloeðð a greoeðð yng Nghaerðyðð ymhlith y rhai mwyaf godiðog a gyflawnoðð yr aðfywiað gothig erioeðð.” - Megan Aldrich



## William Burges (1827-1881)

Ydych chi erioed wedi gweld tyredau hudol sy'n debyg i gastell tylwyth teg sydd i'w gweld trwy'r coedwigoedd hynafol wrth deithio ar yr M4 diflas yn Ne Cymru? Efallai eich bod hyd yn oed wedi ymweld â'r adeilad anhygoel hwn ac wedi rhyfeddu at ei ben-saerniaeth anhygoel. Ond wyddoch chi fod bodolaeth ac apêl barhaol Castell Coch yn ganlyniad i un athrylith fach, fyr ei olwg, y rhoddwyd llysenw angharedig arno, 'Burges Hyll'?



Cartŵn o William Burges gan Hunt Emerson © Architectural Review 2016

Fel pob athrylith, fe'i disgrifiwyd fel llawer o bethau:

*"Burges annwyl, Burges hyll, sy'n ÷ylunio pethau hyfryd ..."*  
- Yr Arglwyddes Bute yn 1881

*"... Adeiladwr wedi ei hudo gan yr Oesoedd Canol."*  
- J Mordaunt Crook, 1981

*"Hen lanc o Gothegydd oedd yn gaeth i opiwm ac a oedd yn gwisgo  
mewn gwisg ganoloesol."*  
- Simon Jenkins, 2003

Mae'n bosibl bod yr holl bethau hyn yn wir amdano, ond erbyn heddiw, mae'n cael ei ystyried yn un o benseiri mwyaf gwreiddiol, creadigol a thalentog y 19eg ganrif. Dylen ni yng Nghymru ddiolch yn fawr iddo am greu dau o'n hadeiladau mwyaf eiconig, sef Castell Caerdydd a Chastell Coch. Y rheswm pam mae'r adeiladau hyn mor adnabyddus ac yn ennyn cymaint o deimladau ledled y byd yw oherwydd eu bod, fel William, yn unigryw, yn goegwych a chyda safbwynt pendant.

*"Rwyf wedi fy magu yng nghrediniaeth y drydedd ganrif ar ddeg, ac yn y gred honno rwyf yn bwriadu marw." - William Burges yn esbonio ei weledigaeth ar gyfer Castell Coch yn 1874)*




Castell Coch © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales



## Cellweiriwr y Llys

Roedd William neu 'Billy' fel yr oedd ei ffrindiau'n ei adnabod yr un mor anarferol a rhyfedd â'i adeiladau. Cafodd ei lysenw, dywedwyd yn annwyl, 'Burges Hyll', i'w wahaniaethu oddi wrth JB 'Pretty' Burges, yr arlunydd, a symudai yn yr un cylchoedd. Efallai oherwydd y llysenw hwn, does dim llawer o ffotograffau o William, gan ei fod yn sensitif am ei olwg.



William Burges tua diwedd y 1870au.  
© Oriel Bortreadau Genedlaethol

Cafwyd stori nad yw'n debygol o fod yn wir fod William mor fyr ei olwg iddo gamgymryd un tro mai dyn oedd paun! Efallai fod hyn yn jôc a adroddai'r dyn ei hun gan fod William yn adnabyddus fel un â synnwyr digrifwch gwych ac wrth ei fodd yn gwisgo i fyny fel cellweiriwr llys ac mewn gwisgoedd canoloesol.

Yn 1858, tynnodd yr arlunydd Frederick Weekes ddarlun o William fel pensaer canoloesol. Mae'n cael ei bortreadu fel petai bron yn ddewin.

Yn bwysicaf oll, roedd ganddo dalent wych ac roedd yn annwyl iawn i'w ffrindiau, llawer ohonynt yn hoelion wyth y dydd. Dywedodd ei fywgraffydd, J Mordaunt Crook,

*"Roedd ei ystod o ffrindiau  
[yn cynnwys] pob agwedd ar Lundain  
Cyn-Raffaelaidd."*



William Burges yn gwisgo fel cellweiriwr llys c1860  
© Oriel Bortreadau Genedlaethol



Burges fel pensaer gan Frederick Weekes

Ymhlith ei edmygwyr yr oedd yr awdur enwog, Oscar Wilde, a chyfansoddodd yr arlunydd gwyb, Dante Gabriel Rossetti, limrig am ei hen ffrind Coleg, gan wneud hwyl am ei wyneb oedd yn debyg i wyneb babi ifanc:

*"There's a babyish party called Burges,  
Who from childhood hardly emerges.  
If you hadn't been told,  
He's disgracefully old,  
You would offer a bull's-eye to Burges."*

Mae'r cyfeiriad at 'llygad tarw' yn cyfeirio at fath o losin streipïog, a oedd yn boblogaidd gyda phlant ar y pryd.

Roedd hefyd yn ecsentrig go iawn. Pe baech yn galw heibio i ymweld â William, byddech yn aml yn dod ar draws golwg annisgwyl, fel yr eglura Jaqueline Banerjee:

*"Efallai y bydd ymwelwyr yn cael eu cyfarch wrth y drws gan rywun byrdew, byr ei olwg gyda pharot ar bob ysgwydd. Mae hyn i gyd yn helpu i esbonio'r cymysgedd rhyfeddol o'r manwl gywir a'r ffantastig yn nyluniadau Burges yn ogystal ag amrywiaeth ei dalentau, a natur eclectic ei weledigaeth."*

Gan weithio gyda'i dîm ffyddlon a thalentog o grefftwyr, adeiladodd amrywiaeth o adeiladau anhygoel gan gynnwys eglwysi, prifysgol, tai ac wrth gwrs, cestyll. Doedd neb tebyg iddo ar y pryd, ac does neb tebyg iddo ers hynny.

## Gwaith allweddol

- Tower House, Llundain, 1875 -81
- Eglwys Gaðeiriol St Fin Barre, Corc, 1863
- Castell Caerdydd, 1866 -1928
- Castell Coch, de Cymru, 1872 -91
- Tŷ Gayhurst, Swydd Buckingham, 1858 -65
- Llys Knightshayes, Dyfnaint, 1867 -74
- Eglwys Christ the Consoler, Swydd Efrog, 1870 -76
- Eglwys y Santes Fair, Studley Royal, Swydd Efrog, 1870 -78
- Tŷ'r Parc, Caerdydd, 1871 -80



*Manyl yn wal allanol Mair a'i Phlentyn Castell Coch © Graham Bell*

Roedd William yn ffodus i gael ei eni i deulu cyfoethog ar 2 Rhagfyr 1827 ger Llundain. Roedd ei dad yn beiriannydd morol llwyddiannus a dywedir i William etifeddu cyfwerth â £10 miliwn o bunnoedd heddiw yn ei ieuenctid.

Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Coleg y Brenin, Llundain, o 1839, lle cyfarfu â'i gyd-fyfyrwr a'i ffrind, Dante Gabriel Rossetti (1828 -1882), a fyddai'n dod yn arlunydd ac yn fardd bydenwog. Yn 1843 dechreuodd astudio peirianeg, ond gadawodd i weithio yn swyddfa'r syrfêwr Edward Blore yn 17 oed.

Gyda Blore cafodd gyfle i weithio ar adfer un o adeiladau mwyaf mawreddog y byd, Abaty San Steffan. Roedd ei gariad at bensaernïaeth ganoloesol eisoes yn amlwg ac roedd yn gwybod mai dyma'r yrfa iddo. Yn anffodus, ni pharhaodd yn hir yn y swydd hon, gan fod ganddo dymher danllyd a'i syniadau ei hun am arddull a ffraeodd gyda'i fos, Blore.

Daeth yn amlwg nad oedd William yn hoff o fod â phennaeth, na hyd yn oed â phartner. Ar ôl partneriaeth aflwyddiannus gyda chyd-bensaer, penderfynodd sefydlu practis ar ei ben ei hun yn Llundain. Ond un diorffwys oedd William ac roedd yn awyddus i ddysgu mwy am ei grefft. Rhwng 1849 -50 treuliodd 18 mis yn teithio, gan ddefnyddio ei gyfoeth helaeth i ariannu ei anturiaethau. Fel pioden awchus, cymerodd syniadau oddi wrth wahanol fathau o bensaernïaeth yn ninasoedd mawr Ewrop a mentrodd i Dwrci hyd yn oed. Roedd hefyd yn brysur yn astudio celfyddydau Siapan, India, Sgandinafia a Gogledd Affrica.



Manyl yn nennfwd yr Ystafell Arabaidd a ysbrydolwyd gan deithiau Burges, yng Nghastell Caerdydd.  
© Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales

Roedd yn credu y dylai pob pensaer deithio gan nodi ei bod yn "gwbl angenrheidiol gweld sut mae gwahanol broblemau celf wedi cael eu datrys mewn oesoedd gwahanol gan ddynion gwahanol." Wrth gwrs, doedd dim gan bob pensaer yr arian i fynd i deithio'r byd gan fod gwneud hynny'n ddrud ac yn cymryd llawer o amser yn ystod oes Fictoria.



## Y Bîdden Ganoloesol

Dylanwadwyd yn arbennig ar William gan y bensaerniaeth ganoloesol a welir yn Normandi, Ffrainc yn ogystal â'r dylunio Islamaidd a geir yn Nhwrci. Roedd wrth ei fodd yn darlunio a chopio'r henebion canoloesol a welodd ar ei deithiau ac roedd yn awyddus i ymgorffori'r dylanwadau hyn yn ei waith. Teimlai rhai beirniaid fod ei obsesiwn â phensaerniaeth Ffrengig ganoloesol yn ei gyfyngu i ryw raddau fel yr esbonia'r awdur, Paul Davies, yn y cylchgrawn Architectural Review yn 2017

*"Ni fyddai William Burges yn ildio; yn hollol sownd yn Ffrainc y 13eg ganrif ac yn astud wrthi hefyd. Gan gredu mai Gothig Ffrengig oedd y peth go iawn (a'i fod yn ei deall yn well na'r Ffrancwyr eu hunain), aeth ef ym mhobman ac i bron unrhyw beth. Yn ffodus, etifeddodd yn agos at £10 miliwn yn arian heddiw i ymroi i'r ffantasi hon..."*



Y lle tân a ddyluniwyd gan Burges yng Nghastell Caerdydd yn dangos Robert o Normandi y tu ôl i fariau yn y castell © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales




Mawredd gothig Big Ben

DiscoA340, CC BY-SA 4.0, trwy Wikimedia Common

Dylanwadwyd yn fawr arno hefyd gan waith y pensaer enwog, A. W. N. Pugin, (1812 - 1852). Roedd Pugin, a ddyluniodd Big Ben a thu mewn i Balas San Steffan, yn adnabyddus am ei gariad at yr arddull gothig. Yn anffodus, bu farw yn ifanc oherwydd straen nerfau a gorweithio. Fel Pugin, roedd Burges eisiau rheolaeth lwyr yn ei gomisiynau pensaernïaeth ac fel ei arwr, gallai fod yn obsesiynol wrth fynd ar drywydd perffeithrwydd. Fel y dywed yr Hanesydd Celf, Adrienne Johnson, wrth ysgrifennu am Burges yn 2004:

*"Gwaith cerrig, gwaith coed,  
gwaith metel, gwaith gwyðr  
-- roedd yn rhaid i bob un gysoni  
a chydymffurfio â'i weledigaeth ei  
hun."*



Augustus Welby Northmore Pugin yn 1840  
© Oriel Bortreadau Genedlaethol



## Yr Aðfywiad Gothig Oes Fictoria

*"Mae'n rhaid mai'r unig arddull o bensaernïaeth synnwyr cyffredin ar gyfer dyfodol Lloegr, [felly] yw pensaernïaeth... Gothig"*

- Alexander Beresford Hope, arweinydd mudiað yr Aðfywiad Gothig tua 1865

Roedd William yn ffodus i fod yn gweithio mewn cyfnod pan oedd adfywiad yn arddull pensaernïaeth 'Gothig'. Dyma Oes Fictoria (1837-1901) a gyflwynodd newidiadau mawr i Brydain, pan oedd y Frenhines Fictoria ar yr orsedd a gyflwynodd newidiadau mawr i Brydain. Tyfodd diwydiannau a dinasoedd ac roedd galw am arddull bensaernïol fwy coegwch a oedd yn pwysleisio crefftwaith a defnyddio deunyddiau cryf fel carreg. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn dal i ffafrio'r arddull adeiladau llai ffansi a mwy 'clasurol', ac yn wfftio'r duedd Gothig newydd.

Mae rhai haneswyr yn credu bod poblogrwydd yr arddull Gothig afradlon yn fath o 'ddianc' o realiti Prydain Fictoraidd i ffantasi weledol fwy dymunol a moethus. Roedd y rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain yn ddsbarth gweithiol a bu'n rhaid iddyn nhw ddioddef bywyd caled yn gweithio yn y diwydiannau trwm newydd ar y pryd. Fyddai yna ddim cestyll ffansi ar eu cyfer!



Gorsaf Sant Pancras a adeiladwyd yn 1868, enghraifft o bensaernïaeth Gothig Oes Fictoria  
© Defnyddiwr: Colin / Wikimedia Commons



## Cestyll yn yr awyr

Roedd Burges hefyd yn hoff iawn o waith yr "Artistiaid Rhamantaidd," a oedd yn weithgar ar yr adeg hon fel ei hen ffrind Coleg, Rossetti a'r grŵp o artistiaid, arlunwyr a beirdd rhamantaidd a elwir y Cyn-Raffaelyddion. Roedd hwn yn gyfnod cyffrous, i ddyfynnu'r 'fashionista' gwych, Iris Apfel, lle 'roedd mwy yn fwy a llai yn ddiflas!'



Paentiad olaf Rossetti,  
yn dangos Joan of Arc (1882).



Eglwys Gadeiriol Sant Paul yn Llundain

Onddoedd pawb ddim yn hoff o arddull afradlon William. Erbyn hyn roedd yn galw ei hun, braidd yn fawreddog, yn 'bensaer celf'. Roedd ganddo obsesiwn ag addurno cywrain ac roedd yn hoffi pethau drud hefyd. Roedd ei ddewisiadau o'r crefftwyr gorau a digonedd o gerfluniau, murluniau, mosaigau a gwydr lliw yn golygu cyllidebau mawr. O ganlyniad, doedd dim llawer o gwsmeriaid yn gallu ei fforddio.

Yn y 1870au, roedd yn awyddus i greu argraff trwy drawsnewid Eglwys Gadeiriol Sant Paul yn Llundain. Doedd y pensaer gwreiddiol, yr enwog Christopher Wren, ddim yn ffasiynol erbyn hyn. Roedd William yn llawn syniadau gwych am sut y byddai'n trawsnewid yr eglwys gadeiriol enwog hon yn Llundain gyda'i arddull unigryw. Ond achosodd hyn brotest enfawr yn y wasg a gollyngwyd ei gynlluniau.

Daeth hyn yn thema barhaus i William. Roedd llawer o'i ddyluniadau heb eu cyflawni erioed neu cawsant eu dymchwel neu eu newid. Bu'n rhaid iddo gystadlu yn erbyn penseiri eraill i gael swyddi a methu cael comisiynau ar gyfer sawl prosiect. Ond byddai lwc William yn newid gyda dau o brosiectau mwyaf cyffrous ei yrfa, Castell Caerdydd a Chastell Coch yn Ne Cymru.



Y swyddfa yn siambrau William Burges, 15 Buckingham Street, 1876 © Amgueddfa Fictoria ac Albert, Llundain.



## Teyrnasoedd y tylwyth teg a bröydd aur

*"Pasbortau tri dimensiwn i deyrnasoeedd tylwyth teg a bröydd aur. Yng Nghastell Caerdydd rydyn ni'n mynd i mewn i wlad llawn breuddwydion." - J Crook*

Erbyn y 1860au roedd William wedi gwneud enw iddo'i hun fel arbenigwr mewn pensaernïaeth Ganoloesol. Roedd wedi gweithio ar sawl prosiect adfer, gan adfer hen adeiladau crand i'w gogoniant gwreiddiol. Bellach yn ei bedwardegau, roedd yn gweithio ar rai comisiynau pwysig, gan gynnwys cadeirlan yn Iwerddon, plastai, ac eglwysi. Felly nid yw'n syndod i John Patrick Crichton-Stuart, 3ydd Ardalydd Bute, gofio amdano pan oedd yn chwilio am bensaer a fyddai'n gallu cyflawni'r dasg o drawsnewid castell cyfan iddo yng Nghaerdydd.

*"Roedd tað tryðydd Arðalydd Bute wedi ðatblygu rheilffyrð a phorthlaðð Y Barri, gan alluogi allforio glo o gymoeðð Cymru, a gwneud y gwaith peirianeg gan gwmni tað Burges.*

*Er mwyn ychwanegu at eu moethusrwyðð, roedd teulu Bute hefyð wedi priodi ððwywaith â menywod o*

*ðeuluoedd cefnog iawn oedd â thir; felly rhoeddwyð i'r tryðydd arðalydd ffordð o fyw oedd mor ysgolheigaiðð a thawel ag y ðymunai. Cafoðð Burges ei ffordð rywfaint fel y cellweiriwr llys, a chafodð yr arðalydd a'i wraig eu huðo gan yr arbenigwr argyhoeddðedig ar yr Oesoedd Canol a'i bethau harðð, er eu bod yn poeni am filiau Burges a'r posibilrwyðð hynod annhebygol eu hunain y byððan nhw'n mynd yn fethðalwyr."*

*- Paul Davies*



John Patrick Crichton-Stuart, 3ydd Ardalydd Bute (1847-1900).




## Burges a Bute - y pâr perffaith

Yn 1865, roedd William yn 38 oed ac roedd yr Ardalydd Bute ar y pryd yn gleient perffaith. Roedd eu partneriaeth yn un a barodd 16 o flynyddoedd ac a drawsnewidiodd Gastell Caerdydd a Chastell Coch yn "balasau breuddwydion neo-Gothig." Roedd Bute yn un o ddynion cyfoethocaf ei gyfnod. Roedd am i Gastell Caerdydd, a oedd wedi pasio trwy briodas i'w deulu, gael ei ailwampio'n llwyr. Yn union fel William, roedd yr Ardalydd Bute yn hoff iawn o deithio, cyfaredd a'r Oesoedd Canol. Nhw oedd y pâr perffaith.

Roedd y Castell yn safle archeolegol bwysig. Dechreuodd yn y ganrif 1af OC fel caer Rufeinig. Erbyn yr 11eg ganrif, adeiladodd y Normaniaid y Gorthwr sy'n dal i sefyll ar Lawnt y Castell hyd heddiw. Yna dechreuodd Arglwyddi canoloesol Morgannwg weithio ar y Tŷ yn ystod y 15fed ganrif. Erbyn y 19eg ganrif, pan ddaeth y sêr i'w priod leoedd y cyfarfu Bute a Burges, gan arwain at greu adeiladau dramatig y Castell a'r tu mewn y gallwn eu gweld heddiw.

Doedd pawb ddim yn hapus am wahodd y William coegwych i weithio ar dirnod Caerdydd. Cafodd un hynafiaethydd ei ddychryn a dywedodd, 'Cyn bo hir bydd yr hen le yn cael ei ddifetha...' Fodd bynnag, cymerodd William yr agwedd y dylid blaenoriaethu Pensaernïaeth dros Archaeoleg er mwyn datblygu'r safle. Cofiwch nad oedd 'Cadw' yn bodoli yn y 19eg ganrif felly doedd neb i warchod cyfanrwydd archeolegol y safleoedd hyn. Lluniwyd y cynlluniau i 'adfer' Castell Caerdydd am y tro cyntaf yn 1865, a pharhaodd y gwaith am weddill oes William a thu hwnt.



Engrafiad o Gastell Caerdydd yn nechrau'r 18fed ganrif © Casgliad y Werin Cymru.


Roedd yr Arglwydd Bute yr un mor hoff o ystafelloedd ffantasi â William. Nid ystafelloedd ymarferol iawn mohonyr nhw ond maen nhw'n syfrdanol o ran eu golwg.



*Tu allan i Gastell Caerdydd yn ei holl ogoniant yn 2023  
gan Pete Rigby, CC BY-SA 2.0 drwy Wikimedia Commons*

Roedd William hefyd yn awyddus bod y tu allan i'r castell yn creu argraff ar bobl a âi heibio. Roedd ei gynlluniau'n cynnwys cyfres o dyrau trawiadol o wahanol siapiau a meintiau. Roedd hyn yn golygu bod y llygad yn symud i fyny ac i lawr yn gyson, gan ei wneud yn adeilad mwy diddorol yn weledol. Yng ngeiriau Mordaunt Crook, 'a veritable skyscraper among palaces.'

Cafodd Burges a Bute eu hysbrydoli gan bob math o ddylanwadau. O trompe l'oeil, (term Ffrangeg am baentiadau sy'n "twyllo'r llygad"), i luniau grotesg, i fwystfilod chwedlonol. Roedd hyn yn llawn 'bling' Fictoraidd!



*Nenfwd yr ystafell wleda yng Nghastell Caerdydd © Coron Hawlfraint Cymru Wales*

Ysbrydolwyd 'Yr Ystafell Arabaidd' gan bensaernïaeth Arabia yn Sisili ac mae'r nenfwd wedi'i orchuddio â deilen aur. Roedd y deunydd yn ddrud ac yn nodweddiadol o Burges a Bute a gredai yn y mantra gwario, gwario, gwario! Roedden nhw eisiau creu argraff a dymchwelodd William rai o'r ystafelloedd llai er mwyn creu gofod mwy trawiadol, fel yn y Neuadd Wledda.

Fodd bynnag, roedd yn parchu pwysigrwydd hanesyddol yr ystafell hon o'r 15eg ganrif a chynlluniodd ei hadfer yn ofalus. Hefyd gofynnodd yr Arglwydd Bute i haneswyr am eu cyngor a sefydlodd 'weithdai Bute' a oedd yn cyflogi crefftwyr gorau Cymru. Heb yr arbenigwyr hyn yn eu crefft, ni fyddai gweledigaeth William ar gyfer ei adeiladau wedi llwyddo.

Fel yr esbonia Andrew Renton:

*"Yng Nghastell Caerdydd, wedi cael rhwydd hynt gan ei nodwr cyfoethog, creodd dychymyg Burges un o gampweithiau pwysig pensaernïaeth Fictoriaidd. Ysbrydolwyd tu allan y ffantasi bensaernïol oedi-rwystr hon gan gestyll canoloesol Ffrengig, ac roedd y tu mewn yn fyw gyda cherfiadau lliw, waliau a phaneli a nenfydau paentiedig."*



Tŵr Cloc Castell Caerdydd © Hawlfraint Coron Cymru Wales.

Rhan gyntaf y cynllun oedd Tŵr y Cloc. Er na fyddai'n cael ei ddefnyddio'n aml, roedd yn llawn addurniadau. Creodd gynnwrf mawr pan ddatgelodd William ei ddyluniad yn yr Academi Frenhinol yn 1870. 'Amser' oedd ei thema, gyda seryddiaeth a'r sêr yn cael eu defnyddio i greu effaith syfrdanol.



Cynllun ar gyfer Ystafell Ysmygu'r Haf, Castell Caerdydd, William Burgess, Axel Haig (tua 1870) © Amgueddfa Cymru

Ystyrir hefyd mai Ystafell Ysmygu yr Haf a'r orielau ynddi yw un o'r enghreifftiau gorau o waith William. Roedd hyn yn defnyddio'r Bydysawd fel ei thema ac roedd y llawr yn deils wedi'u peintio'n llachar gyda symbolau'r Sidydd. Dyma lle y byddai'r Arglwydd Bute yn diddanu ei westeion gwrywaidd dros sigâr neu ddau.

Roedd gan William rai hoff themâu a fyddai'n codi dro ar ôl tro yn ei waith. Er enghraifft,

os edrychwch yn ofalus, fe welwch hoff adar William, sef paracitiaid, sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel 'adar cariad' yn ymddangos mewn gwahanol ffyrdd yn yr ystafell ysmygu. Mae'r thema 'cariad' yn cael ei adleisio yn y ffigwr cerfluniedig o 'Amor' ar y cwfl simnai a'i baentio yn y cylchoedd bach paentiedig neu 'rowndelau' ar y waliau hefyd.

Dewiswyd thema cariad i dalu teyrnged i'r Arglwydd a'r Arglwyddes Bute. Priododd y pâr yn 1872 ac aethon nhw ymlaen i gael pedwar o blant. Dyluniodd William Feithrinfa yn arbennig ar eu cyfer. Pan fuodd farw yn 1881, parhawyd â'i waith ar Gastell Caerdydd gan ei gyn-gynorthwydd, y pensaer talentog William Frame. Sicrhaodd Frame i ddyluniadau William ar gyfer y Wal Anifeiliaid eiconig gael eu gorffen yn 1892.



Yr ystafell ysmygu wedi'i chwblhau yng Nghastell Caerdydd.



*Llew o Wal yr Anifeiliaid yng Nghastell Caerdydd  
gyda Thŵr y Cloc yn y cefndir  
© Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales*

Bu farw'r 3ydd Ardalydd yn 1900 yn 53 oed, yn union fel ei gyfaill, William. Parhaodd mab Bute, y 4ydd Ardalydd, i adfer Castell Caerdydd a dechreuodd ar y gwaith o adfer Castell Caerffili, adeilad arall oedd yn eiddo i Bute. Yn ffodus, goroesodd Castell Caerdydd fomiau'r Ail Ryfel Byd heb ddifrod. Yn 1947, rhoddwyd y Castell i bobl Caerdydd gan 5ed Ardalydd Bute, gydag adroddiadau yn y papurau newyddion ar y pryd yn nodi "nid Castell Caerdydd mwyach ond Castell yn perthyn i Gaerdydd oedd".

Heddiw, mae'r Castell yn un o atyniadau treftadaeth mwyaf blaenllaw Cymru, gyda thwristiaid yn ymweld o bob cwr o'r byd. Os ydych yn byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd, gallwch gael eich 'allwedd i'r castell' eich hun am dair blynedd, lle y gallwch ryfeddu at greadigaethau William am ddim.



## Castell Coch - castell y tylwyth teg



Castell Coch © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales

*"Ail-greu o bentwr o rwbel gastell tylwyth teg sy'n ymōdangos bron fel petai wedi ymōdangos o ymylon llawysgrif ganoloesol."*

*- J Morðaut Crook*

*"Mae'r olygfa o bell, o ðyrau anghyfartal siâp ðrwm yn codi o ðan ðoeau fel ðiffōdwy'r canhwylau o'r llechweð goediog, yn anorchfygol o apelgar. Yma rhoddir sylweð i gastell breuðwyðion rhamantus"*

*- John Newman*

Mae gan Cadw yr anrhydedd o ofalu am un o'r adeiladau mwyaf hudolus yng Nghymru, Castell Coch. Mae llawer o arbenigwyr yn credu mai dyma adeilad harddaf William ac mae'r cyhoedd yn pleidleisio drosto'n rheolaidd fel eu hoff adeilad yng Nghymru. Yn dominyddu'r dirwedd ac wedi'i amgylchynu gan goetir, ymddengys fod Castell Coch yn perthyn i fyd arall, mwy hudol. Roedd yn gaer ganoloesol yn wreiddiol, ond erbyn y 19eg ganrif roedd yn adfail llwyr.

Roedd adfeilion y castell ar dir yr Arglwydd Bute. Gofynnodd i William adrodd ar ei gyflwr a gwneud argymhellion o ran beth y dylid ei wneud ag ef. Awgrymodd Burges eu bod naill ai'n gwneud rhywfaint o waith atgyweirio neu'n ei ailwampio'n llwyr. Cymeradwyodd yr Arglwydd Bute ailwampio'r castell, gan feddwl y gallai fod yn lle addas i'r Butes dreulio peth amser yn ystod misoedd yr haf.



Llun o adfeilion y castell o wefan Castell Coch.com

Esboniodd William y broses feddwl y tu ôl i'r penderfyniad i ailadeiladu Castell Coch i Architect Magazine yn 1874. Mae'n amlwg ei fod yn credu bod y prosiect yn arwydd o gynnydd mawr ac nad oedd ganddo unrhyw bryderon am bwysigrwydd archeolegol y safle:

*"Ar seiliau sentimental llwyr y mae perchennog bonheddig yr adfeilion yn awgrymu y dylið ailadeiladu'r gaer hon, gan na chynhigir unrhyw newid i'r cynllun gwreiddiol. Gallai pobl eraill y mae ganddynt adfeilion cenedlaethol mwy helaeth yn eu meddiant – adfeilion sy'n arbennig o debyg i rai Castell coch, sy'n fwy defnyddiol i'r hynafiaethydd nag i'r archeolegydd ddilyn yr enghraifft a osodwyd gan yr Ardaldd. Gellir eu dinistrio'n gyfan -heb fawr o golled i gelfyddyd ... [2] ni all hyn beidio â bod yn elfen o gynnydd ym maes pensaerniaeth fodern "*



## Gothig Ffrengig a Ffantasi Gymreig


Dechreuodd y gwaith yn 1875 a gwnaeth William ymroi yn llwyr! Adeiladwyd pont godi a phorthcwlis sy'n gweithio'n llawn. Edrychodd ar gestyll eraill Cymru am ysbrydoliaeth, ond ei brif ddylanwad oedd pensaernïaeth Gothig Ffrengig. Dylanwadwyd yn arbennig arno gan adferwr adeiladau canoloesol Ffrengig, Viollet-le-Duc. Cafodd ei ysbrydoli hefyd gan Gastell Chillon o'r 13eg ganrif ar Lyn Genefa yn y Swistir.



Castell Chillon, Y Swistir

Mae'n eithaf difyr wrth ysgrifennu yn yr Architect Magazine yn 1874, bod William yn bychanu ei waith adfer y tu mewn i Gastell Coch, gan gyfeirio at ychwanegu "ychydig mwy o addurniadau":


*"Mae'n rhaid i mi bledio'n euog i'r ffaith fod gweðdill y tŵr yn adferiad dychmygol pur. Gan ei bod yn amlwg bod yr hyn sy'n weðdill o ddwyddiaid diweddarach na thŵr y gegin, yr wyf wedi mentro i osod ychydig mwy o addurniadau. Pe bai unrhyw adferiad gwirioneddol byth yn digwydd, dyma'r tŵr y dylwn ei gynnig at ddefnydd arglwydd ac arglwyddes y castell."*



Un o luniadau Burges o ran ogleddol y castell  
© Cyngor Caerdydd



Un o 'addurniadau bychain' Burges – nenfwd trawiadol yng Nghastell Coch  
© Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales



CASTELL COCH

PROPOSED RECONSTRUCTION OF CASTLE COCH GLAMORGAN  
W. BURGESS - ARCHITECT

CASTELLCOCH.COM

Cynlluniau o gylchgrawn © 'The Architect' Gwefan Castell Coch

Doedd dim terfyn ar yr arian, diolch i frwdfrydedd yr Arglwydd Bute am weledigaeth William. Ailadeiladwyd y porthdy, codwyd y tyrau, gyda cheiliogod gwynt copr lliw aur. Ychwanegodd hyd yn oed lwybr cerdded o amgylch y castell ac oriel ymladd pren. Doedd y gwres canolog, y toiledau fflysio a'r 'tynwyr clychau' i alw gweision ddim mor ganoloesol fodd bynnag!



*Y llwybr cerdded o amgylch y castell*  
© Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales

Gwnaeth William hyd yn oed yn siŵr bod gan y Fonesig Bute ei hystafell wely ysblennydd ei hun. Wedi'i osod o dan gromen ddrych ysblennydd, fe'i cynlluniwyd yn bendant i greu argraff. Yn anffodus, dim ond teithiau achlysurol a wnaeth y teulu i'r Castell ac ni chât'r ystafell wely ei defnyddio'n aml.



*Ystafell wely'r Arglwyddes Bute gyda dodrefn wedi'u hychwanegu gan John Chapple ddegawd ar ôl marwolaeth Burges*  
© Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales

Un o'r ystafelloedd mwyaf trawiadol yw'r Ystafell Groeso. Yma, cyfunodd William themâu natur a breuder bywyd. Mae'r 'tair tynged', triawd o Dduwiesau Groeg sy'n troelli, yn mesur ac yn torri llinyn bywyd, mewn man amlwg uwchben y lle tân. Mae yna hefyd furlun hyfryd sy'n dangos anifeiliaid o bedwar ar hugain o Chwedlau Aesop. Gellir gweld madfallod pren cerfiedig, adar a bywyd gwyllt eraill yn y drysau.



Y tair tynged uwchben y lle tân yn Ystafell Groeso Castell Coch  
© Hawlfraint y Goron



Cyfeirir weithiau at Gastell Coch fel ffoledd, a diffinnir ffoledd fel 'adeilad addurnol costus heb unrhyw bwrpas ymarferol.' Mae'r rhan fwyaf o arbenigwyr yn cytuno nad yw hyn yn wir gan fod iddo swyddogaeth neu bwrpas fel cartref, (hyd yn oed os nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml), ar gyfer teulu Bute. Gallwch hefyd ddadlau bod adfer castell canoloesol ynddo'i hun yn weithred ddefnyddiol.

Un o furluniau'r anifeiliaid a ysbrydolwyd gan Chwedlau Aesop yng Nghastell Coch  
© Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales

Yn anffodus bu farw William Burges cyn iddo gwblhau Castell Coch. Gadawodd gynlluniau manwl i'w gynorthwyyr ar sut i gwblhau'r gwaith, ac roedd dodrefn a murluniau yn cael eu hychwanegu hyd at ddeng mlynedd ar ôl iddo farw. Fodd bynnag, dywedir bod hyd yn oed fwy o ryddid i chwaeth yr Arglwydd Bute ddod i'r amlwg heb law arweiniol Burges fel y nododd Robert Davies yn 2017:

*"Mae addurniadau Castell Coch, a gwblhawyd gan gynorthwyyr niferus Burges ar ôl iddo farw, yn sicr yn eclecticig, ond efallai fod hyn yn adlewyrchu dylanwad cynyddol y cleient, yn hytrach na Burges ei hun."*



Castell Coch © Hawlfraint y Goron (2024) Cymru Wales



## Adeilad Anghofiedig Burges yng Nghaerdydd

*"Efallai mai hwn yw'r tŷ pwysicaf o'r 19eg ganrif yng Nghymru." (Cadw)*

Wyddoch chi i William Burges gynllunio trydydd adeilad yng Nghaerdydd? Os cerddwch chi ar hyd Plas y Parc, sydd ger yr Amgueddfa Genedlaethol, fe welwch chi ef ar unwaith! Mae'n sefyll allan fel un o beunod Burges, yn hardd yn ei ddyluniad gothig ac wedi'i adeiladu ar gyfer Prif Beiriannydd Dociau Bute a Maer Caerdydd, John McConnochie, yn 1874. Fel ei fos, sef Ardalydd Bute, roedd John hefyd yn hoff o greiriau moethus a rhyfedd. Roedd rhestr o'i eiddo yn cynnwys cadair llyfrgell oedd yn troelli a hyd yn oed siwt o arfwisg!



20 Plas y Parc, Caerdydd  
Tony Hisgett, CC BY 2.0, drwy Wikimedia Commons

Yn ôl Mordaunt Crook, gwnaeth William ‘gamgymeriad’ arwyddocaol yn y cynlluniau ar gyfer mynedfa’r tŷ. Wrth i chi gerdded i mewn, y peth cyntaf a welwch chi yw gwaelod y grisiau enfawr! Gwnaeth William yn siŵr nad oedd yn gwneud yr un camgymeriad yn ei dŷ ei hun a adeiladodd yn ddiweddarach, a oedd â dyluniad tebyg iawn ar wahân i’r camgymeriad anarferol hwn. Daeth y tŷ yn adnabyddus a cheisiodd pobl efelychu ei arddull yng Nghaerdydd a thu hwnt. Nododd John B Hilling yn ei lyfr, ‘Pensaernïaeth Cymru’ (2018), fod yr adeilad yn “chwyldroi pensaernïaeth ddomestig Caerdydd”.

Mae gan y tŷ yn 20 Plas y Parc, (a elwir yn ddiweddarach yn ‘Park House’) hanes amrywiol iawn. Yn y 1970au, adroddodd y Western Mail ar

*“Dirgelwch Trist Rhif 20, Plas y Parc”*

Erbyn 1975, roedd Cyngor Morgannwg wedi cymryd perchnogaeth ar yr adeilad gan ei adael yn wag. Disgrifiodd y papur newyddion yr adeilad a oedd ar un adeg yn brydferth fel un a esgeuluswyd,


*“Mae ffenestri wedi’u torri ac wedi’u cracio, llwch a baw yn ðechrau cronni, mae’r ðyfodol yn eðrych yn llwm...”*

Yn ffodus, goroesodd 20 Plas y Parc, fe’i gwerthwyd i brynwyr preifat, a than yn ddiweddar, roedd yn fwyty. Mae’r tŷ bellach wedi’i warchod a’i restru gan Cadw fel eiddo Gradd 1, sy’n golygu na ellir newid ei bensaernïaeth heb ganiatâd. Bellach yn gartref preifat, cafodd gwerthiant yr adeilad hardd hwn ei drin gan y gwerthwyr tai Savills, cwmni ar gyfer pobl gyfoethog, am swm anhysbys



## Celf a Chrefft a harddwch pethau

*"Os mai prin y gellir galw eu gwaith yn rhad; yn sicr nið yw'n ddrud, pan ystyriwn ei fod yn siarad ac yn adrodd stori, rhywbeth na ellir ei ddweud yn sicr am y rhan fwyaf o ddodrefn modern."* - William Burges, describing the work of Arts and Crafts pioneers William Morris and Company in 1875.



Tebot ar ffurf eliffant a ddyluniwyd gan William Burges  
© Casgliad y Werin Cymru.

Yn ogystal ag adeiladau, roedd William hefyd ag obsesiwn am harddwch 'pethau'. Credai y byddai dyfodol pensaernïaeth i'w gael mewn dyluniadau hardd a rhyfedd yn aml ar gyfer dodrefn, gwydr lliw, cerameg a gwaith metel. Mae ei debot rhyfedd ar ffurf eliffant (chwith) yn dangos ei synnwyr digrifwch yn aml yn disgleirio yn ei ddyluniadau ar gyfer y gwrthrychau hyn. Roedd yn rhaid i hyd yn oed fasn slops a ddyluniwyd gan Burges fod yn chwaethus!



Basn slops, tebot a chadi, o gasgliad William Burges © Casgliad y Werin Cymru.



Pen gwely wedi'i ddylunio gan William Burges © Casgliad y Werin Cymru

Roedd hyn yn golygu ei fod yn ddylanwad allweddol ar y mudiad Celf a Chrefft. Roedd hwn yn fudiad a ddaeth yn boblogaidd ar ddiwedd y 19eg ganrif a gellid dweud ei fod yn ymateb uniongyrchol i "or-ddiwydiannu" a chynhyrchu torfol y cyfnod. Roedd Cymdeithas Arddangosfeydd Celf a Chrefft a sefydlwyd yn Llundain yn 1887 eisiau i'r cyhoedd barchu gwaith pobl ac artistiaid crefft. William Morris yw'r dylunydd mwyaf enwog a hyrwyddodd y mudiad hwn.

*"Ceisiodd Burges... reoli pob agwedd ar ei gomisiynau pensaernïol, gan ddylunio cynlluniau addurnol cywrain mewn pren, carreg, metel, paent a marmor i addurno tu mewn a thu allan ei adeiladau."*

- Cartref Celf a Chrefft



## Y fasys Tiwlip enwog



Un o'r fasys Tiwlip a ddyluniwyd gan Burges  
© Amgueddfa Cymru

Un o "bethau" mwyaf gwerthfawr William yw'r fâs Tiwlip. Nid fâs gyffredin mo hon, fel yr eglura Andrew Renton, Pennaeth Casgliadau Dylunio Amgueddfa Cymru:

*"Mae gan Amgueddfa Cymru yn ei gasgliadau fâs crochenwaith rhyfeddol a gynlluniwyd gan William Burges (1827 -1881) ar gyfer Ystafell Ysmygu'r Haf yng Nghastell Caerdydd... Mae'r fâs hon ymhlith yr enghreifftiau pwysicaf o ddylunio Oes Fictoria gyda chysylltiad Cymreig. Fe'i crëwyd fel rhan o un o'r comisiynau pensaernïol addurnol rhagorol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn sicr y mwyaf arwyddocaol yng Nghymru."*

Cymerwyd y set o bedair fâs allan o Gastell Caerdydd erbyn Awst 1948, ar ôl i'r Castell gael ei gyflwyno i Ddinas Caerdydd yn 1947. Cafodd dwy eu prynu gan y bardd John Betjeman, ac yn 1965 fe roddodd hwnnw y fasys i

Charles Handley, ac roedd ei nodyn o ddiolch yn dweud. "Dw i bron â ffrwydro gyda diolchgarwch a phleser." Yn ffodus, llwyddodd Amgueddfa Cymru i godi arian grant i brynu un fâs yn ôl.

Ystyrir bod y fâs liwgar yn enghraifft ragorol o ddylanwadau'r mudiad Celf a Chrefft yn ôl Andrew Renton. Mae hefyd yn nodi ei fod yn dangos y gemau roedd Burges a Bute yn chwarae gyda'i gilydd. Math o 'gystadleuaeth' o faint o ddylanwadau y gallent eu taflu yn eu gwrthrychau a'u hadeiladau!

Roedd Paul Davies yn dyfalu bod William, a oedd yn hen lanc gydol oes, wedi defnyddio ei obsesiwn am wrthrychau i wneud yn iawn am ddiffyg cysylltiad â phobl: "Roedd yn diogelu ei hun gyda gwrthrychau; mae agosatrwydd eraill yn ymddangos yn amherthnasol." Mae'n demtasiwn yn yr 21ain ganrif i or-ddadansoddi gweithredoedd ffigurau hanesyddol. Ond mae'n wir fod William yn obsesiynol wrth geisio harddwch a pherffeithrwydd yn ei waith.



## Cartref seren roc

Rydym wedi gweld sut y gwnaeth William gynllunio cartrefi ar gyfer teulu Bute ac eraill, ond beth am ei dŷ ef ei hun? Nid yw'n peri siom! Disgrifiwyd ei 'Tower House' fel 'enfawr, dysgedig, disglair, anhygoel' gan y pensaer, WR Lethaby. Prynodd y seren roc, Jimmy Page, a oedd yn y band enwog, Led Zeppelin, y tŷ yn 28 oed yn 1973.

Yn 2018, aeth i anghydfod cynllunio gyda chymydog enwog, y seren bop, Robbie Williams, a oedd am gael caniatâd i ddechrau adeiladu gwaith ar ei dŷ yntau. Esboniodd Page i The Guardian ar y pryd:

*"Roeddwn i'n gwybod beth yw adeilad rhestredig Graad 1 a chymaint o fraint oedd byw mewn rhywbeth fel hyn... mae Tower House yn anhygoel... y lloriau mosaig anhygoel hynny y gallai unrhyw ddirgryniad effeithio arno. Mae'n un o'r gofodau cudd gwych y tu mewn i adeilad yn Llundain. Deillia'r tŷ hwn o enaid Burges ei hun, ei galon ei hun. Mae'n dŷ Burges pur, heb ei wanhau. Mae angen i rywun [yn siarad am y gwaith adeiladu] ddeffro a sylweddoli pwysigrwydd yr adeilad hwn."*



Cartref Burges, Tower House, Llundain

Yn anffodus, chafodd William mo'r cyfle i fwynhau ei gartref hyfryd yn hir. Wrth ymweld â Chaerdydd yn 1881, aeth ar daith hir mewn cerbyd a oedd yn cael ei dynnu gan geffylau. Daliodd annwyd, ac fe'i gadawyd wedi'i hanner parlysu. Dair wythnos yn ddiweddarach ar 20 Ebrill 1881, bu farw yn ei 'Wely Coch' yn Tower House, ac yntau ddim ond yn 53 oed. Ymhlith ei ymwelwyr olaf roedd Oscar Wilde a'r artist rhagorol, James Whistler. Cafodd ei gladdu yn y beddrod a gynlluniodd ar gyfer ei fam yn West Norwood, Llundain.



Llun yn dangos ystafell wely Burges yn y Tower House o 'The House of William Burges ARA' (Golygwyd gan RP Pullan), 1885.

Honnir i hoffter William o'r cyffur opiwm, y daeth ar ei draws ar daith i Gaergystennin, yn ôl ei fywgraffydd, Crook, gyfrannu at ei farwolaeth. Dywedodd y 'Dictionary of Scottish Architects' gyda sicrwydd fod ei farwolaeth gynnar wedi dod,

*"o leiaf yn rhannol o ganlyniad i'w fforðd o fyw fel hen lanc gan ysmygu tybaco ac opiwm."*

Mae rhai beirniaid hyd yn oed wedi dyfalu bod y ffaith ei fod dan ddylanwad opiwm wedi cyfrannu at ei ddyluniadau ffantasiol!

Roedd yn ergyd drom i'w ffrindiau a'i gydweithwyr. Ysgrifennodd John Starling Chapple, cynorthwydd ffyddlon Burges am fwy nag 20 mlynedd,

*"Prin fy mod yn sylweðdoli fy sefyllfa unig eto.  
Ef oedd bron yr holl fyð i mi."*



## r Athrylith a Anghofiwyd


Erbyn dechrau'r 1900au, doedd pensaernïaeth Gothig ddim yn boblogaidd bellach ac roedd yn cael ei hystyried yn rhywbeth 'hen ffasiwn' a dros bren llestri. Cafodd llawer o adeiladau William eu newid gan eu perchnogion. Cafodd ei emwaith a'i ffenestri gwydr lliw eu taflu i ffwrdd a chafodd ei ddodrefn eu rhoi i ffwrdd.

Un o'r unig bobl i'w hyrwyddo ar ôl ei farwolaeth oedd ei frawd-yng-nghyfraith, Richard Popplewell Pullan. Yn ddarlunydd ac yn archeolegydd, roedd yn briod â chwaer William. Roedden nhw wedi etifeddu ac yn byw yn The Tower House a chyhoeddodd Pullan gasgliadau o ddyluniadau Burges, gan gynnwys Architectural Designs of William Burges (1883) a The House of William Burges (1886). Yn ei gyflwyniad i'r ail lyfr, mae'n ysgrifennu ei fod yn gobeithio y câi'r gwaith

*"groeso cynnes ac y câi ei werthfawrogi'n fawr, nið yn unig gan ei froðyr proffesiynol, ond gan bob ðyn o chwaeth aððysgedig yn Ewrop ac yn America."*



## Cwlt Billy Burges



Llyfr arddangosfa The Strange Genius 1981  
© Amgueddfa Cymru

Cymerai dros gan mlynedd cyn i dalentau William gael eu gwerthfawrogi eto. Roedd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa'r V&A yn nodi canmlwyddiant ei farwolaeth, gydag arddangosfa ar y cyd 'Strange Genius' yn 1981.

Yn sydyn bin roedd 'Billy' Burges yn dod yn 'gwlt' ymhlith selogion oes Fictoria. Dechreuodd pobl gasglu ei waith eto. Gallwch ddod o hyd i'r eitemau hyn ar werth ar-lein o hyd. Ond erbyn hyn, mae un deilsen geramig 'Sidydd' a ddyluniwyd gan Burges yn gwerthu am £500 yn y tai arwerthiant mwyaf crand.

Gallwn ni yng Nghymru gofio William ar anterth ei bwerau, trwy'r adeiladau gwych a greodd gyda'r crefftwyr gorau a chyda chefnogaeth noddwr angerddol. Coleddir a gwarchodir yr adeiladau hyn o hyd, rhywbeth a fyddai wedi ei blesio:

*"Yna'r cwestiynau mawr fyðð, yn gyntaf, a yw'r gwaith yn harðð ac, yn ail, a yw'r bobl yr ymððiriedwyð y gwaith iððyn nhw, wedi'i wneud gyða'u holl galon a'u holl allu?" - William Burges*